

Eisteddfod yr Urdd – 2018

Cystadleuaeth Prif Seremoni Defod Y Cadeirio Bl.10 a dan 25 oed (379)

BEIRNIADAETH GRUFFUDD ANTUR A MARI LISA

ANTON AP PAVLOV

Mae ffugenw'r bardd hwn yn awgrymu y bydd ei gerdd yn ein tywys i fyd un o ddramodwyr ac awduron mawr Rwsia yn ail hanner y bedwaredd ganrif ar bymtheg, sef Anton Pavlovich Chekhov. Rhoddir 'Madarcha' fel teitl i'r gerdd; gwyddys fod Chekhov yn hoff iawn o fadarcha gan fod hynny, yn ei ôl ef, yn deffro'r meddwl. Dyma fardd a chanddo gyfoeth o eirfa, bardd uchelgeisiol ei syniadau a'i gyfeiriadaeth, ond hwyrach nad dyna wendid y gerdd hefyd: mae'n gerdd sy'n apelio at y meddwl ond sy'n gadael y galon braidd yn oer. Bron nad ydyw wedi brwysgo ar y madarch y mae'n eu casglu, a chyn hir, daw'r perlewyg i ben, yn ddisymwth ac yn ddi-wefr braidd. Ceir yma ambell linell drawiadol fel 'Mae'r hollfyd yn cyniweirio'n yr hollt', ond mae llinellau ffuantus fel 'yn nawns / gyfiaith y glaswellt brigwydr' fel petaent yn chwalu'r hud. Gydag adnoddau ieithyddol fel rhai ANTON AP PAVLOV, gallasai'n rhwydd lunio cerdd lawer grymusach drwy ganu'n fwy uniongyrchol ac yn llai tywyll.